## Dinas a Sir Abertawe - Adroddiad Blynyddol Cynghorydd 2013-2014

Mae Adroddiad Blynyddol y Cynghorydd hwn yn amlinellu ei weithgareddau dros y flwyddyn a ddaeth i ben ar **7 Mai 2014**. Fe'i darperir er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid oes ganddo ddiben arall. Barn y Cynghorydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o angenrheidrwydd yn adlewyrchu barn Dinas a Sir Abertawe.

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Cynghorydd:** | Linda Tyler-Lloyd | Adran Etholiadol: | Mayals |

**Adran 1: Gweithgareddau yn yr etholaeth**

Cynhaliais gymhorthfa yn fy ward bob mis ac eithrio mis Rhagfyr a mis Ionawr (neuadd ddim ar gael).
Fi oedd Cadeirydd Cyngor Cymuned y Mwmbwls nes i'm cyfnod yn y swydd ddod i ben.
Roeddwn yn aelod o sawl pwyllgor ar Gyngor Cymuned y Mwmbwls.
Cefnogais Gymdeithas y Preswylwyr yn ei phrosiectau.
Rwyf wedi cefnogi Pwyllgor Prosiect Dyffryn Clun yn ei waith cadwraeth.

**Adran 2: Presenoldeb y Cynghorydd yng nghyfarfodydd penodol cyrff y cyngor**

Un elfen bwysig yn unig o ddyletswyddau Cynghorydd yw mynychu cyfarfodydd cyrff y Cyngor. Mae Cynghorwyr hefyd yn gweithredu trwy gynnal cymorthfeydd, mynd i gyfarfodydd ac ymateb i ymholiadau cyffredinol o'r adran etholiadol.

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Fforwm Magu Plant Corfforaethol | 4 | / | 6 | 67 | % |
| Y cyngor | 12 | / | 15 | 80 | % |
| Pwyllgor Rheoli a Rheolaeth Datblygu | 3 | / | 8 | 38 | % |
| Is-bwyllgor Hawliau Tramwy a Thir Comin | 2 | / | 6 | 33 | % |
| CYFFREDINOL | 21 | / | 35 | 60 | % |

Dangosir uchod % presenoldeb yn seiliedig ar aelodaeth pwyllgor.

**Adran 3: Rôl a chyfrifoldebau'r Cynghorydd**

Cynhaliais ymweliadau rota â chanolfannau dydd.

Roeddwn yn aelod o'r paneli ymchwilio canlynol:
Gofal Cymdeithasol yn y Cartref,
Cynhwysiad Addysg,
Panel Digartrefedd
Panel Craffu Tai Fforddiadwy

Euthum i gyfarfodydd llywodraethwyr ysgol yn Ysgol Gynradd Mayals.

**Adran 4: Mentrau a Gweithgareddau Arbennig**

Rhyddheais £5,000 o'm harian amgylcheddol i alluogi Pwyllgor Dyffryn Clun i wneud cais am y Grant Ymddiried £42,000 i ailwampio'r Bont Rufeinig yn Blackpill.

Arweiniais y frwydr i gadw'r bont hon sydd wedi bodoli ers oddeutu pum can mlynedd.

**Adran 5: Dysgu a Datblygu**

Euthum i'r sesiynau hyfforddi canlynol:

17/12/2013 - Cyflwyniad i Hyfforddiant Cyfryngau
Dyddiadau amrywiol – Academi Arweinyddiaeth
Hyfforddiant Llywodraethwyr Ysgol

**Adran 6: Gweithgareddau a materion eraill**

Wrthi'n gweithio i alluogi llwybr i gael ei osod ar draws y glaswellt rhwng y groesfan yn Llwynderw a'r promenâd.

Hefyd yn gweithio ar y Pwyllgor Priffyrdd ar Gyngor Cymuned y Mwmbwls i gyflwyno mynediad mwy diogel trwy Lawnt Mayals i blant sy'n cerdded i Ysgol Mayals.

**Adran 7: Taliadau Cydnabyddiaeth i Gynghorwyr**

Cyflog sylfaenol - £13,175 y flwyddyn.

Gellir gweld ffurflenni hawlio costau teithio a chynhaliaeth cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13266&path=0&LLL=0

Gellir gweld treuliau a lwfansau blynyddol cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13284&path=0&LLL=0

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 28.05.14 |